# Tystysgrif Feddygol Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Llogi Preifat

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Taflen Ganllaw

Mae'r Dystysgrif Feddygol yn fodd i'r Awdurdod Trwyddedu gael gwybod a yw'r ymgeisydd yn feddygol ffit i yrru cerbyd hacni a cherbydau llogi preifat. Rhaid archwilio ymgeiswyr a thystio eu bod yn feddygol ffit **gan eu Meddyg Teulu eu hun neu Feddyg Teulu arall yn y practis y maen nhw wedi cofrestru ag ef a rhaid cymryd hanes meddygol blaenorol i ystyriaeth.** Mae'n bosibl y bydd y Cyngor yn gofyn am archwiliad meddygol pellach neu am achos cyfeirio ar ôl derbyn y dystysgrif gychwynnol hon.

Nid yw'r Dystysgrif Feddygol hon yn un sydd yn gorfod cael ei chyflwyno am ddim fel rhan o'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol. Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb i dalu amdani. Mae unrhyw ffi daladwy i'w thalu'n uniongyrchol gan yr ymgeisydd i'r Meddyg Teulu, oni bai bod trefniadau eraill wedi eu gwneud ar gyfer talu'r ffi. Bydd yr ymgeisydd yn talu am unrhyw archwiliadau meddygol neu achosion cyfeirio pellach.

Mae'r dystysgrif hon at ddefnydd cyfrinachol yr Awdurdod Trwyddedu a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill.

Wrth gwblhau'r Dystysgrif Feddygol hon **RHAID** i Feddygon Teulu dalu sylw at rifyn diweddaraf y llyfryn "*At a Glance Guide to the Current Medical Standards of Fitness to Drive*" a gyhoeddwyd gan Grŵp Meddygol Gyrwyr, DVLA, Abertawe. Gellir gweld hwn ar-lein yma: http://www.dft.gov.uk/dvla/medical/ataglance

**NODER FOD YR AWDURDOD TRWYDDEDU YN GOFYN BOD HOLL YMGEISWYR YN CYFLAWNI SAFONAU GRŴP 2.** Mae'r safonau hyn yn gymwys i yrwyr cerbydau sy'n cludo teithwyr ac maen nhw'n sylweddol uwch na rhai gyrwyr ceir preifat. Awgrymir bod ymgeiswyr sy'n ansicr ynghylch eu gallu i fodloni safonau meddygol neu olwg yn ymgynghori â'u meddyg/optegydd cyn trefnu bod ffurflen feddygol yn cael ei chwblhau. Fel arfer, bydd eich meddyg yn codi tal arnoch i gwblhau'r ffurflen feddygol. Os caiff eich cais ei wrthod, NID yw'r ffi a daloch chi i'r meddyg yn ad-daladwy. NID oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Lleol i dalu'r ffi i'r meddyg.

Mae Tystysgrif Feddygol yn ofynnol ar gyfer y canlynol:

- Pob cais cychwynnol ar gyfer trwydded cerbyd hacni / trwydded llogi preifat
- Rheini sy'n ceisio adnewyddu trwydded cerbyd hacni / trwydded llogi preifat ar neu ar ôl 45 mlwydd oed (ac yna bob pum mlynedd tan 65 oed)
- Bydd yn ofynnol i'r rheini sy'n gwneud cais i adnewyddu trwydded cerbyd hacni / trwydded llogi preifat o 65 oed gwblhau tystysgrif feddygol yn flynyddol

Mae'r Dystysgrif Feddygol yn ddilys am gyfnod o **28 diwrnod** ar ôl i'ch meddyg arwyddo'r adroddiad.

**Ni chaiff ceisiadau am drwydded cerbyd hacni / trwydded llogi preifat eu derbyn oni bai bod tystysgrif feddygol gyfredol yn cael ei chyflwyno sydd wedi ei chwblhau'n gywir, ei stampio â stamp swyddogol y feddygfa a'i harwyddo gan y meddyg a gyflawnodd yr archwiliad meddygol**

# Tystysgrif Feddygol Gyrrwr Cerbyd Hacni
# a
# Cherbyd Llogi Preifat

MERTHYR TYDFIL
County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

**Wrth gwblhau'r Dystysgrif Feddygol hon, RHAID i Feddygon Teulu dalu sylw at rifyn cyfredol y llyfryn "*At a Glance Guide to the Current Medical Standards of Fitness to Drive*" a gyhoeddwyd gan Grŵp Meddygol Gyrwyr, DVLA, Abertawe. Gellir gweld hwn ar-lein yma:**
**http://www.dft.gov.uk/dvla/medical/ataglance**

**Noder ei fod yn ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu fod pob ymgeisydd yn bodloni Safonau Grŵp 2.**

## RHAN 1 I'W GWBLHAU GAN YR YMGEISYDD

## MANYLION A CHANIATÂD YR YMGEISYDD

**Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau'r adran hon.**

**MANYLION PERSONOL YR YMGEISYDD**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| | |
| | |
| Cod post | |
| Dyddiad geni | |
| Rhif ffôn cartref | |
| Rhif symudol | |
| E-bost | |
| Rhif bathodyn (os yw'n gymwys) | |

**Applicant's Name** ______ **DOB** ______

**MANYLION MEDDYG TEULU (Ble mae'r ymgeisydd wedi ei gofrestru)**

| | |
|---|---|
| Enw'r GP | |
| Enw'r practis | |
| Cyfeiriad y practis | |
| | |
| | |
| | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |

| | |
|---|---|
| Ers pryd ydych chi wedi bod ar gofrestr y practis hwn? | |

**CANIATÂD A DATGANIAD YR YMGEISYDD**

RHAID cwblhau'r adran hon a DIM ei newid mewn unrhyw ffordd. RHAID i ymgeiswyr arwyddo'r datganiad isod.

**Rwyf yn awdurdodi** fy meddyg i gyflwyno adroddiadau i Adran Drwyddedu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ynghylch fy nghyflwr meddygol.

**Rwyf yn datgan** fy mod yn dweud y gwir ynghylch fy nghyflwr meddygol hyd y gwn i.

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr ymgeisydd** | |
| **DYDDIAD** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Applicant's Name** | | **DOB** | |

## RHAN 2 I'W GWBLHAU GAN Y MEDDYG

## YR ARCHWILIAD MEDDYGOL

**Dylai'r adran hon gael ei chwblhau gan y Meddyg sy'n cwblhau'r Dystysgrif Feddygol. Defnyddiwch inc du.**

**MANYLION Y MEDDYG TEULU**

| | |
|---|---|
| Eich enw | |
| Enw'r practis | |
| Cyfeiriad y practis | |
| | |
| | |
| Cod post | |
| Rhif ffôn | |

**DATGANIAD GAN Y MEDDYG TEULU**

Rwyf yn tystio fy mod i heddiw wedi rhoi archwiliad i____________________________________ sydd wedi arwyddo'r ffurflen hon yn fy mhresenoldeb.

***Ticiwch un o'r canlynol***

Rwyf yn cadarnhau mai fi yw Meddyg Teulu'r ymgeisydd ...................... ☐

Myfi yw'r Meddyg Teulu yn y practis ble mae'r ymgeisydd wedi cofrestru ☐
..............................................................................

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pwysau'r ymgeisydd (kg) | | Taldra'r ymgeisydd (cms) | |

A yw'r ymgeisydd yn ysmygu? Ydy • Nac ydy •

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Applicant's Name** | | **DOB** | |

**Ar ôl ymgynghori â rhifyn cyfredol "At a Glance Guide to the Current Medical Standards of Fitness to Drive" a gyhoeddwyd gan Grŵp Meddygol Gyrwyr, DVLA, Abertawe, cwblhewch y tabl isod.**

| Anhwylder | A yw'r ymgeisydd erioed wedi cael problem yn y categori hwn? * ***Dileer fel sy'n briodol*** | A yw'r ymgeisydd yn bodloni Safonau Grŵp 2? ***Dileer fel sy'n briodol*** |
|---|---|---|
| Anhwylderau niwrolegol | Ydy / na | Ydy / na |
| Anhwylderau cardio fasgwlar | Ydy / na | Ydy / na |
| Diabetes Mellitus | Ydy / na | Ydy / na |
| Anhwylderau seiciatrig | Ydy / na | Ydy / na |
| Cam-ddefnyddio a dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol | Ydy / na | Ydy / na |
| Anhwylderau gweledol | Ydy / na | Ydy / na |
| Anhwylderau arennol | Ydy / na | Ydy / na |
| Cyflyrau amrywiol eraill | Ydy / na | Ydy / na |
| Gyrwyr anabl | Ydy / na | Ydy / na |

** Os ateboch chi 'ydy' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, a wnewch chi gadarnhau yn yr adran wybodaeth ychwanegol ar dudalen 8 a yw'r ymgeisydd wedi bodloni'r holl amodau/profion cymhwyso a osodir yn Safonau Grŵp 2, gan gynnwys manylion am unrhyw adroddiadau/profion ymgynghorydd neu fonitro arall a ddefnyddiwyd gennych i wneud yr asesiad.*

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd yn gofyn bod y cwestiynau canlynol yn cael eu hateb

| **Cwestiynau Ychwanegol** | **Ymateb** *Dileer fel sy'n briodol* |
|---|---|
| A oedd gennych fynediad llawn i gofnodion meddygol yr ymgeisydd ac a wnaethoch ymgynghori â'r cofnodion hyn wrth gwblhau'r archwiliad hwn? | Do / Na |
| A yw'r ymgeisydd yn gallu perfformio tasgau perthnasol sy'n gysylltiedig â bod yn yrrwr cerbyd hacni neu gerbyd llogi preifat, yn cynnwys y gallu i ddarparu cymorth rhesymol i deithwyr a llwytho bagiau a chadeiriau olwyn?<br>Os mai'r ateb yw na, rhowch fanylion yn yr adran wybodaeth ychwanegol ar dudalen 8. | Ydy / na |
| A oes gan yr ymgeisydd gyflwr meddygol sy'n cael ei waethygu wrth fod wrth ymyl ci? Os oes, a yw'n ddigon difrifol fel y dylai'r Cyngor gyflwyno esgusodiad i'r ymgeisydd rhag cario cŵn yn ei gerbyd?<br>Os mai'r ateb yw 'oes', rhowch fanylion yn yr adran wybodaeth ychwanegol ar dudalen 8. | Oes / Na |
| Ydych chi'n ystyried bod unrhyw archwiliad meddygol arall yn angenrheidiol?<br>Os mai'r ateb yw 'ydw', rhowch fanylion yn yr adran wybodaeth | Ydw / Na |

**Applicant's Name**      **DOB**

| | |
|---|---|
| ychwanegol ar dudalen 8. | |

**Applicant's Name** | | **DOB** | |

Yr wyf i, sef y Meddyg Teulu cofrestredig sydd wedi archwilio'r ymgeisydd gan dalu sylw dyledus i'r cyngor a'r canllaw perthnasol i Yrwyr Grŵp 2 a gaiff eu gosod yn rhifyn cyfredol "At a Glance Guide to the Current Medical Standards of Fitness to Drive", a gyhoeddwyd gan y DVLA, yn ystyried bod yr ymgeisydd:

***Ticiwch un o'r canlynol***

a) Yn bodloni Safonau Meddygol Grŵp 2 DVLA o ffitrwydd i yrru cerbyd hacni a/neu gerbydau llogi preifat □

**neu**

b) **Nid** yw'n bodloni Safonau Meddygol Grŵp 2 DVLA o ffitrwydd i yrru ac nid yw'n ffit i yrru cerbyd hacni a/neu gerbydau llogi preifat □

..........................................................................................

Os ydych chi'n tystio nad yw'r ymgeisydd yn bodloni Safon Grŵp 2 yna rhowch wybodaeth bellach (os yw'n briodol) yn ychwanegol at yr adran wybodaeth ar dudalen 8.

**Arwyddwyd** (Meddyg Teulu) ______________________________________

**ENW** (llythrennau bras) ________________________________________

| **STAMP Y FEDDYGFA A DYDDIAD**<br>**Date** ____________________________ |
|---|

** Nodwch na chaiff y ffurflen ei derbyn os nad yw stamp y feddygfa'n bresennol.*

**Applicant's Name** [ ] **DOB** [ ]

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Os oes angen gwybodaeth bellach ar unrhyw gwestiwn, defnyddiwch y gwagle hwn. Atodwch dudalennau ychwanegol os yw'n angenrheidiol.

| |
|---|
| Nodwch ar y dudalen hon faint o dudalennau ychwanegol yr ydych wedi eu hatodi os o gwbl. |

*File reference: taxi/medical form*
*Last revision date: 09/09/2014*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Applicant's Name** | | **DOB** | |